
# LLEINIAU CYSGOD

Mae lleiniau cysgodi wedi cael eu defnyddio ers cannoedd o flynyddoedd i amddiffyn da byw a chnydau rhag gwynt a glaw, gan ddarparu amrywiaeth o fanteision. Gall y manteision hyn amrywio yn dibynnu ar faint y llain gysgodi, y lleoliad a'r math o rywogaethau a ddewisir, a gellir eu teilwra i gyd-fynd ag anghenion penodol eich fferm.



Yn ystod tywydd poeth eithafol, mae da byw yn agored i straen gwres sy'n arwain at gyfraddau pesgi is, llai o laeth yn cael ei gynhyrchu yn ogystal ag effeithio ar gyfraddau ffrwythlondeb. Mae'r cysgod mae lleiniau cysgodi yn eu darparu yn helpu i leihau'r straen hwn. Heb gysgod priodol rhag gwyntoedd oer a glaw, mae ar anifeiliaid angen llawer mwy o fwyd i gadw'n gynnes, sy'n arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau a lles gwael. Mae lleiniau cysgodi yn creu microhinsawdd sy'n gallu ymestyn hyd at 20 gwaith uchder y coed. Er enghraifft, gall llain gysgodi 10m o uchder ddarparu lloches am 200m ar y naill ochr a'r llall. Gall lleiniau cysgodi hefyd leihau dŵr ffo wyneb, gwella gallu'r pridd i ddal a storio dŵr a lleihau erydiad pridd. Gall lleiniau cysgodi sydd wedi'u lleoli'n strategol gyfrannu at reoli llifogydd yn naturiol, darparu cynnyrch pren fel sglodion neu danwydd, cynnig tamaid buddiol, gwahanol i dda byw bori arno a chefnogi bioamrywiaeth drwy baill ac aeron.

## MANYLEBAU

Dyma un enghraifft o sut y gallech chi fynd ati i blannu lleiniau cysgodi. Dylai'r ddwy res allanol (Rhes 1 a 2) sy'n wynebu'r prifwynt gynnwys llwyni a rhywogaethau canolraddol sydd 1m ar wahân a gyda bwlch o 1.5m rhwng y rhesi. Dylid plannu rhywogaethau coed talach yn y ddwy res sy'n weddill (Rhes 3 a 4), gyda bwlch o 2m rhyngddynt a gyda bwlch o 1.5m rhwng y rhesi. Gallwch hefyd blannu rhesi o goed talach wrth ymyl gwrych sy'n bodoli'n barod, a fydd yn disodli rhesi 1 a 2.



Llain gysgod gyda phroffil ar oleddf

## Y LLIF AER CYFLYMAF FYDD YR OERAF

Gosodwch y coed mwyaf yng nghanol llain gysgodi i wneud yn siŵr bod lle o amgylch yr ymylon ar gyfer llwyni a glaswellt.

Mae llwyni a glaswelltau trwchus yn sicrhau'r manteision gorau posibl o ran bioamrywiaeth a chysgod rhag y gwynt.

LLIF GWYNT YN CAEL EI NEWID

CYNHESACH SYMUDIAD YR AER YN ARAFACH



Er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl o ran cysgod, plannwch goed mawr yn agos at yr ymylon dwyreiniol a deheuol, a digon o lwyni ar yr ymylon gogleddol a gorllewinol.

**Llwyni yn rhesi 1 a 2:**
Drain gwynion

**Enghreifftiau eraill:**
Coed cyll, drain duon, ysgaw, helyg deilgrwn.

**Coed canolradd yn rhes 3:**
Criafol

**Enghreifftiau eraill:**
Bedw llwyd, ceirios yr adar, celyn, coed afalau surion.

**Coed mawr yn rhes 4:**
Pinwydd yr Alban

**Enghreifftiau eraill:**
Coed gwern, aethnenni, poplys du.

Os oes gennych ddiddordeb mewn plannu coed ar ffermydd a chyfleoedd eraill, mae rhagor o wybodaeth ar gael yma **woodlandtrust.org.uk/plant** neu cysylltwch â ni **plant@woodlandtrust.org.uk**

Diolch i Dr Lindsay Whistance am ei chyfraniad.

Mae logo Coed Cadw yn nod masnach cofrestredig. Mae Coed Cadw yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 294344 ac yn yr Alban rhif SC038885.

Cwmni nid-er-elw cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru yn Lloegr rhif 1982873.

Mae'r daflen hon wedi'i gwneud yn bosibl diolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

COED CADW WOODLAND TRUST

PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

POSTCODE GREEN TRUST

FSC MIX Paper FSC® C189282

DC00557